# Atodiad C: dangosyddion cenedlaethol

Byddwn yn defnyddio'r dangosyddion hyn i olrhain safonau cenedlaethol dros amser, deall effaith y Cynllun hwn, a llywio camau gweithredu pellach. Byddant yn rhoi llinell sylfaen i ddeall ein man cychwyn ac yn rhoi darlun cenedlaethol o gynnydd dros amser.

| **Dangosydd** | **Yr hyn y bydd yn ei ddweud wrthym** | **Y sefyllfa o ran y llinell sylfaen** | **Mesur o lwyddiant** | **Amseru'r gwaith adrodd** | **Dull adrodd** | **Dadansoddiad o'r data** |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Cyfran y dysgwyr Blwyddyn 6 sy'n rhagori ar y dangosydd sy'n gysylltiedig ag oedran ar gyfer Darllen Cymraeg a Saesneg, a'r rhai sy'n cyrraedd y dangosydd hwnnw ac sydd islaw iddo. | Bydd hyn yn helpu i roi darlun cenedlaethol o gynnydd dysgwyr mewn perthynas â darllen cyn iddynt bontio i addysg uwchradd. | Byddwn yn sefydlu gwaelodlin priodol yn ystod 2026-27. Adroddir ar hyn yn ystod 2027-28. | Y cynnydd o flwyddyn i flwyddyn yng nghyfran yr holl ddysgwyr sy'n cyrraedd neu'n rhagori ar y dangosydd sy'n gysylltiedig ag oedran a bwlch culach mewn deilliannau rhwng grwpiau gwahanol o ddysgwyr.<br><br>Caiff targed ei osod yn dilyn y llinell sylfaen | Bob blwyddyn o 2027-2028, ar ôl cwblhau a dadansoddi data asesiadau personol. | Cyhoeddir fel rhan o gyfres cyhoeddiadau ystadegol Patrymau cyrhaeddiad mewn darllen a rhifedd. | Cynhelir dadansoddiad cenedlaethol; pan fo'r data yn gadarn, cânt eu dadansoddi yn ôl nodweddion dysgwyr fel anfantais neu dlodi, rhyw a grwpiau perthnasol eraill. |
| Cyfran y dysgwyr Blwyddyn 6 sy'n rhagori ar y dangosydd sy'n gysylltiedig ag oedran ar gyfer Rhifedd (Gweithdrefnol). | Bydd hyn yn helpu i roi darlun cenedlaethol o gynnydd dysgwyr mewn perthynas â rhifedd cyn iddynt bontio i addysg uwchradd. | Byddwn yn sefydlu gwaelodlin priodol yn ystod 2026-27. Adroddir ar hyn yn ystod 2027-28. | Y cynnydd o flwyddyn i flwyddyn yng nghyfran y dysgwyr sy'n cyrraedd neu'n rhagori ar y dangosydd sy'n gysylltiedig ag oedran a bwlch culach mewn deilliannau rhwng grwpiau gwahanol o ddysgwyr.<br><br>Caiff targed ei osod yn dilyn y llinell sylfaen | Bob blwyddyn o 2027-2028, ar ôl cwblhau a dadansoddi data asesiadau personol. | Cyhoeddir fel rhan o gyfres cyhoeddiadau ystadegol Patrymau cyrhaeddiad mewn darllen a rhifedd. | Cynhelir dadansoddiad cenedlaethol; pan fo'r data yn gadarn, cânt eu dadansoddi yn ôl nodweddion dysgwyr fel anfantais neu dlodi, rhyw a grwpiau perthnasol eraill. |
| Cyfran y garfan Blwyddyn 11 sy'n ennill cymhwyster Cymraeg neu Saesneg perthnasol, fel y nodir yn y canllawiau ar ddysgu 14 i 16 o dan y Cwricwlwm i Gymru. | Bydd hyn yn dangos y deilliannau ar ddiwedd y cyfnod dysgu 14-16 sydd â'r cysylltiad agosaf â llythrennedd. | I'w chadarnhau gan ddefnyddio'r mesurau cymwysterau y cytunwyd arnynt ar ôl cyflwyno'r cymwysterau 'Gwneud-i-Gymru' diwygiedig, eu dyfarnu ac adrodd arnynt am y tro cyntaf. | Y cynnydd yng nghyfran y garfan Blwyddyn 11 sy'n ennill cymwysterau Cymraeg neu Saesneg perthnasol. O fewn y cynnydd hwn, lleihad yn nifer y gwahaniaethau mewn deilliannau rhwng grwpiau o ddysgwyr.<br><br>Caiff targed ei osod yn dilyn y llinell sylfaen | Bob blwyddyn, yn unol â chylchoedd adrodd cymwysterau. | Cyhoeddir yn genedlaethol fel rhan o'r set o ddangosyddion llythrennedd a rhifedd a'r proffil dangosyddion addysg ehangach. | Cynhelir dadansoddiad cenedlaethol; pan fo'r data yn gadarn, cânt eu dadansoddi yn ôl nodweddion dysgwyr fel anfantais neu dlodi, rhyw a grwpiau perthnasol eraill. |
| Cyfran y garfan Blwyddyn 11 sy'n ennill cymhwyster mathemateg perthnasol, fel y nodir yn y canllawiau ar ddysgu 14 i 16 o dan y Cwricwlwm i Gymru. | Bydd hyn yn dangos y deilliannau ar ddiwedd y cyfnod dysgu 14-16 sydd â'r cysylltiad agosaf â llythrennedd. | I'w chadarnhau gan ddefnyddio'r mesurau cymwysterau y cytunwyd arnynt ar ôl cyflwyno'r cymwysterau 'Gwneud-i-Gymru' diwygiedig, eu dyfarnu ac adrodd arnynt am y tro cyntaf. | Y cynnydd yng nghyfran y garfan Blwyddyn 11 sy'n ennill cymwysterau mathemateg perthnasol. O fewn y cynnydd hwn, lleihad yn nifer y gwahaniaethau mewn deilliannau rhwng grwpiau o ddysgwyr.<br><br>Caiff targed ei osod yn dilyn y llinell sylfaen | Bob blwyddyn, yn unol â chylchoedd adrodd cymwysterau. | Cyhoeddir yn genedlaethol fel rhan o'r set o ddangosyddion llythrennedd a rhifedd a'r proffil dangosyddion addysg ehangach. | Cynhelir dadansoddiad cenedlaethol; Pan fo'r data yn gadarn, cânt eu dadansoddi yn ôl nodweddion dysgwyr fel anfantais neu dlodi, rhyw a grwpiau perthnasol eraill. |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Cymraeg 2050:<br><br>Canran y disgyblion Blwyddyn 1 sy'n astudio drwy gyfrwng y Gymraeg. | Bydd hyn yn helpu i roi darlun cenedlaethol o gynnydd tuag at yr uchelgais genedlaethol y dylai dysgwyr Blwyddyn 11 gyflawni lefel hyfedredd B2 o leiaf o ran rhyngweithio llafar yn y Gymraeg, yn seiliedig ar y dybiaeth y bydd disgyblion sy'n astudio Cymraeg fel iaith gyntaf ym Mlwyddyn 1 yn parhau i wneud cynnydd o flwyddyn i flwyddyn i gyflawni'r lefel hon o hyfedredd. | Y llinell sylfaen i'w chadarnhau, gyda'r data yn seiliedig ar y cyfrifiad ysgolion blynyddol ar lefel disgyblion. | Cynnydd o flwyddyn i flwyddyn yng nghanran y disgyblion Blwyddyn 1 sy'n astudio drwy gyfrwng y Gymraeg.<br><br>Caiff targed ei osod yn dilyn y llinell sylfaen | Bob blwyddyn. | Cyhoeddir yn genedlaethol ochr yn ochr â'r set o ddangosyddion llythrennedd a rhifedd a bennwyd neu'r proffil dangosyddion addysg ehangach, ac yn yr adroddiad blynyddol ar strategaeth y Gymraeg. | Cynhelir dadansoddiad cenedlaethol; pan fo'r data yn gadarn, cânt eu dadansoddi yn ôl nodweddion dysgwyr fel anfantais neu dlodi, rhyw a grwpiau perthnasol eraill. |
| Cyfran y sesiynau a fynychwyd:<br>• yn gyffredinol.<br>• gan y grwpiau sy'n wynebu'r risg fwyaf o ymddieithrio, gan gynnwys dysgwyr sy'n gymwys i gael prydau bwyd am ddim. | Mae presenoldeb yn dangos mynediad dysgwyr at addysg a'u gallu i elwa ar addysgu, cymorth ac ymyriadau sy'n gwella llythrennedd a rhifedd. | Cyfradd bresenoldeb a ddilyswyd ar gyfer blwyddyn academaidd 2025-2026. | Gwelliant o flwyddyn i flwyddyn yn:<br>• lefelau presenoldeb cyffredinol o 0.5 pwynt canran;<br>• lefelau presenoldeb grwpiau sydd yn wynebu’r risg fwyaf o ymddieithrio, gan gynnwys dysgwyr sy’n gymwys i gael prydau ysgol am ddim.<br><br>Lleihad o flwyddyn i flwyddyn yn:<br>• y bylchau mewn lefelau presenoldeb rhwng grwpiau sydd yn wynebu’r risg fwyaf o ymddieithrio, gan gynnwys dysgwyr sy’n gymwys i gael prydau ysgol am ddim, a’u cyfoedion<br>• absenoldeb parhaus o 2 bwynt canran | Bob blwyddyn, gyda chymorth data ar bresenoldeb bob pythefnos i fonitro tueddiadau dros amser. | Cyhoeddir yn genedlaethol fel rhan o'r set o ddangosyddion llythrennedd a rhifedd neu'r dangosyddion addysg ehangach. Caiff patrymau presenoldeb eu hystyried ochr yn ochr â deilliannau llythrennedd a rhifedd. | Cynhelir dadansoddiad cenedlaethol; pan fo'r data yn gadarn, cânt eu dadansoddi yn ôl nodweddion dysgwyr fel anfantais neu dlodi, rhyw a grwpiau perthnasol eraill |
| Bylchau yn lefelau presenoldeb (cyfrannau'r sesiynau a fynychwyd) y grwpiau sy'n wynebu'r risg fwyaf o ymddieithrio, gan gynnwys dysgwyr sy'n gymwys i gael prydau bwyd am ddim a'u cyfoedion. | Mae presenoldeb yn dangos mynediad dysgwyr at addysg a'u gallu i elwa ar addysgu, cymorth ac ymyriadau sy'n gwella llythrennedd a rhifedd. | Cyfradd bresenoldeb a ddilyswyd ar gyfer blwyddyn academaidd 2025-2026. | Lleihad o flwyddyn i flwyddyn yn:<br>• nifer y bylchau yn lefelau presenoldeb y grwpiau sy'n wynebu'r risg fwyaf o ymddieithrio, gan gynnwys dysgwyr sy'n gymwys i gael prydau bwyd am ddim a'u cyfoedion. | Bob blwyddyn, gyda chymorth data ar bresenoldeb bob pythefnos i fonitro tueddiadau dros amser. | Cyhoeddir yn genedlaethol fel rhan o'r set o ddangosyddion llythrennedd a rhifedd neu'r dangosyddion addysg ehangach. Caiff patrymau presenoldeb eu hystyried ochr yn ochr â deilliannau llythrennedd a rhifedd. | Cynhelir dadansoddiad cenedlaethol; pan fo'r data yn gadarn, cânt eu dadansoddi yn ôl nodweddion dysgwyr fel anfantais neu dlodi, rhyw a grwpiau perthnasol eraill |
| Cyfran yr absenoldebau cyffredinol sy'n absenoldebau cyson; Lle y caiff absenoldeb cyson ei ddiffinio fel bod yn absennol am 10% o'r sesiynau gofynnol. | Mae presenoldeb yn dangos mynediad dysgwyr at addysg a'u gallu i elwa ar addysgu, cymorth ac ymyriadau sy'n gwella llythrennedd a rhifedd. | Cyfradd bresenoldeb a ddilyswyd ar gyfer blwyddyn academaidd 2025-2026. | Lleihad o flwyddyn i flwyddyn yn:<br>• cyfraddau absenoldeb cyson. | Bob blwyddyn | Cyhoeddir yn genedlaethol fel rhan o'r set o ddangosyddion llythrennedd a rhifedd neu'r dangosyddion addysg ehangach. Caiff patrymau presenoldeb eu hystyried ochr yn ochr â deilliannau llythrennedd a rhifedd. | Cynhelir dadansoddiad cenedlaethol; pan fo'r data yn gadarn, cânt eu dadansoddi yn ôl nodweddion dysgwyr fel anfantais neu dlodi, rhyw a grwpiau perthnasol eraill |